Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Meryl Pierce

Cwmni/Corff Twf

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Ydw

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Nac ydw

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Credir bod y cynulleidfaoedd targed yn ddigon priodol ond bod angen gofalu fod y ddarpariaeth yn cynnwys babanod dan flwydd oed. Y nod yma yw arfer y teulu i edrych ar raglenni Cymraeg o'r cychwyn cyntaf.

Hefyd dylid edrych ar dargedu'r rhieni hynny sy'n gyn-ddisgyblion ysgolion penodedig Gymraeg ond sydd heb ddefnyddio'r Gymraeg ers iddynt ymadael â'r ysgol. Mae'r gr□p hwn yn un sylweddol o fewn y Gymru gyfoes, ac yn allweddol er sicrhau dyfodol y Gymraeg. Maen nhw'n gr□p sy'n ddi-hyder yn eu Cymraeg ond sydd fel arfer yn dewis addysg Gymraeg i'w plant. Gallai'r sianel newydd, drwy'r ddarpariaeth ychwanegol ar lein, fod yn fodd i roi hwb mawr i'w hyder.

Mae'r bwriad i ddod â rhaglenni'r oedran meithrin i ben am 3.00 yp yn achosi pryder. Yn ôl rhieni plant o'r oedran hwn, yr amser a nodir fel yr amser y bydden nhw'n dymuno cael darpariaeth meithrin S4C yw rhwng 5.00 a 6.30 yr hwyr. Cyfeirio a wneir at yr adeg prysur pan fo'r plant yn flinedig ar ôl dod gartref o'r feithrinfa, y rhiant wedi bod yn y gwaith ac angen yr amser i baratoi pryd min nos. Byddai'r sianel newydd yn gyfle gwych i sicrhau bod arlwy Cymraeg ar gael ar adeg pan fo rhieni yn barod i droi at sianeli Saesneg er mwyn diddanu eu plant..

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Rhaglenni addas ar gyfer babanod ar ffurf DVD Camau Bach.
Rhaglenni ar gyfer yr oedran hyn sy'n llwyddo i apelio at blant sydd o gartrefi di-Gymraeg ond sy'n mynychu ysgolion Cymraeg.
Cynnal y rhaglenni llwyddiannus iawn e.e. Uned 5, Mama-mia, Rownd a Rownd

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Dim sylw

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Hyderir y bydd y ddarpariaeth newydd hefyd yn cynnig arlwy apelgar ar y Sul hefyd. Mae'r darlledu ychwanegol a wneir ar hyn o bryd ar adeg gwyliau ysgol yn amlwg yn plesio rhieni. Derbynia swyddogion Twf lawer o adborth gan rieni sy'n nodi hynny. Hyderir bod bwriad i ystyried llwyddiannau presennol wrth greu'r sianel newydd.